



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

15 Gorffennaf 2021



Croeso Emma Woollett, Cadeirydd

Helpwch ni
yn y frwydr
yn erbyn
COVID-19



Cyflwyniad Mark Hackett, Prif Weithredwr

Helpwch ni
yn y frwydr
yn erbyn
COVID-19



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Bae Abertawe
Swansea Bay University
Health Board



Covid-19



- Rhoddwyd ein strwythur gorchymyn a rheoli ar waith ar 31 Ionawr 2020 ac mae'n parhau yn ei le hyd nawr;
- Mae rhai o'n cyflawniadau'n cynnwys:
 - Sefydlu dwy ganolfan profi drwy ffenest y car, ac yna gyfleusterau galw heibio ac unedau profi symudol;
 - Arwain yn lleol wrth gyflwyno rhaglen frechu o'r radd flaenaf;
 - Agor uned frys i blant;
 - Creu dau ysbyty maes o fewn rhai wythnosau.



- Bu iechyd a lles staff yn allweddol;
 - Enillodd ein gwasanaethau iechyd galwedigaethol a lles staff ddwy wobr yng Ngwobrau Cenedlaethol Iechyd Galwedigaethol a Lles *Personnel Today* 2020;
 - Mae gwasanaethau iechyd a lles pwrpasol yn eu lle, sy'n cynnwys seicolegwyr, cymorth gyda myfyrio, cymorth gyda thrawma, cefnogaeth ysbrydol ac ystafelloedd adfer;
 - Daeth côr adran achosion brys Ysbyty Treforys yn enwog ledled y byd ar ôl i fideo ohonynt yn canu 'I'll Be There' gan y *Jackson Five* arwain at wahoddiad i ganu gyda Heather Small i berfformio ei gân 'Proud'.



- Bu'n rhaid i ni weithio'n rhithwir yn gyflym a datblygwyd nifer o fentrau:
 - Y bwrdd iechyd cyntaf yng Nghymru i 'fynd yn fyw' gyda'r ap *Consultant Connect* ac erbyn Ebrill 2021 roedd 40% o'n hymgyngghoriadau ar gyfer cleifion allanol yn digwydd yn rhithwir;
 - Hyd yn hyn, mae 180,000 o apwyntiadau rhithwir wedi digwydd ar gyfer nifer o arbenigeddau, yn cynnwys gwasanaethau llosgiadau a phlastig, gwasanaethau therapi, ffisiotherapi, seicoleg a gwasanaethau plant;
 - Nifer o systemau newydd fel bod y meddygon a oedd naill ai'n cysgodi neu'n gweithio gartref er mwyn lleihau nifer y bobl yn yr ysbytai, yn gallu ymweld yn rhithwir â'r cleifion ar y wardiau, gan sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut roedd eu cleifion yn dod yn eu blaenau.



Cyllid a Pherfformiad

- Ar gyfer 2020-21, roedd gennym gyllideb o £1.1 biliwn ac adroddwyd diffyg refeniw o £24.304m ar ddiwedd y flwyddyn - roedd hyn yn unol â'r rhagolwg a wnaed ddechrau'r flwyddyn;
- Fodd bynnag, roedd yn torri ein dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb, ac roedd hynny hefyd yn wir am ein methiant i gyflawni cynllun tair blynedd cymeradwy;
- Cawsom hefyd £47.984m mewn arian cyfalaf a bu tanwariant o £28k yn erbyn y dyraniad hwn;
- Am hanner cyntaf y flwyddyn, adroddwyd rhagolwg diwedd blwyddyn llawer uwch i'r bwrdd oherwydd y gwario misol uchel yn sgil Covid-19 - cawsom £148.947m o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i helpu i ddechrau adfer y sefyllfa ariannol.



- Gwelwyd peth cynnydd yn ein perfformiad cyn dechrau 2020-21 ond yn sgil y pandemig bu'n rhaid newid ein ffordd o weithio;
- Datblygwyd nifer o fentrau i gefnogi'r system ar gyfer gofal heb ei drefnu, yn cynnwys:
 - Adeilad dros dro i roi cleifion ambiwlans ynddo tra oeddent yn aros i ddod i'r adran;
 - Cymorth ychwanegol ar gyfer gwaith clercol, therapi, gofal lliniarol a gweithwyr cymdeithasol;
 - Canolfan gofal sylfaenol frys a 'chyswllt cyntaf' i leihau'r nifer a oedd yn mynd i'r ysbyty'n ddiangen;
- Bu gofal wedi'i gynllunio'n arbennig o anodd, oherwydd cafodd yr holl ofal nad oedd yn frys ei atal ar ddechrau'r pandemig. Lle bynnag y bo modd, rydyn ni wedi ailgychwyn gwasanaethau yn ddiogel ac yn parhau i gynyddu ein capasiti i weld a thrin mwy a mwy o gleifion;
- Bydd gofal heb ei drefnu, gofal wedi'i gynllunio a gwasanaethau canser yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y cynllun blynyddol yn 2021-22. Mae hynny hefyd yn wir am y pum blaenoriaeth ansawdd allweddol, sef rheoli heintiau; lleihau cwympiadau; atal hunanladdiadau; sepsis a gofal diwedd oes.



Cyflawniadau Eraill

- Ysbyty Treforys fydd yr ysbyty cyntaf yng Nghymru i gael fferm solar;
- Agorwyd yr Uned Mamau a Babanod gyntaf yng Nghymru i helpu menywod â phroblemau iechyd meddwl difrifol yn ystod eu beichiogrwydd a/neu'n dilyn genedigaeth eu baban;
- Addaswyd ambiwlans er mwyn ei ddefnyddio gan y gwasanaethau allgymorth ar gyfer iechyd rhywiol;
- Mae mwy na 2,000 o bobl wedi cofrestru ar Borth Cleifion Bae Abertawe er mwyn iddynt allu gweld gwybodaeth am eu hiechyd a'u lles a'i rhannu â'u perthnasau a staff clinigol.



Iechyd a Lles Staff



- Mae rhai o'r datblygiadau a wnaed gennym i gefnogi, datblygu a chydabod staff yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:
 - Cyflwyno pecyn lles i gefnogi lles seicolegol, emosiynol a chymdeithasol, ac iechyd a lles;
 - Gweithredu model rheoli trawma (TRiM);
 - Darparu llety mewn gwestai ar gyfer staff a oedd yn poeni am drosglwyddo'r feirws i'w teulu gartref;
 - Am y tro cyntaf erioed, cynhaliwyd y seremoni wobrwyo Byw ein Gwerthoedd yn rhithwir, gan ei recordio o flaen llaw;
 - Prosiect mannau gwyrdd er mwyn datblygu ardaloedd awyr agored.



Y Flwyddyn Nesaf

- Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n gobeithio eu cyflawni dros y 12 mis nesaf :
 - Gwella profiad cleifion trwy ddiogelwch ac ansawdd gwell a llai o niwed;
 - Canolbwyntio ar heintiau sy'n cael eu dal yn sgil gofal iechyd, sepsis, gofal diwedd oes, cwympiadau, atal hunanladdiadau a gwella canlyniadau a safonau clinigol;
 - Adnewyddu ein hysbytai yn ogystal â'n gwasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol a therapi;
 - Trawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu;
 - Gwella'r sefyllfa ariannol;
 - Gwella profiad staff yn y gwaith.
- Ni fyddwn yn anghofio chwaith yr angen i ymateb i Covid-19 – er ein bod i gyd yn gobeithio y gallwn ddechrau adfer yn ail hanner y flwyddyn, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar ein hymateb i Covid-19.



Diolch

- Diolch i chi i gyd am ddod - bu eleni hyd yn oed yn fwy heriol na'r flwyddyn flaenorol;
- Ond rhoddodd gyfle hefyd i ni ddysgu a gwneud y newidiadau i ddarparu iechyd gwell, gofal gwell, bywydau gwell.



Unrhyw gwestiynau?

